# Y Busnes o Ailgylchu

## Pecyn Adnoddau Cyfathrebu




Y Busnes o Ailgylchu Cymru | The Business of Recycling Wales

# Cynnwys



## Cynnwys

Cefndir ........ 3
Manteision ailgylchu yn y gweithle ........ 4
Ffeithiau allweddol ........ 5
Cymorth y Busnes o Ailgylchu Cymru ........ 6
Adnoddau i'w lawrlwytho ........ 7
Logos a sut i'w defnyddio ........ 8
Posteri cyfarwyddiadau ........ 9
Eiconau ffrydiau deunyddiau ar gyfer y gweithle ........ 10
Dechrau arni ........ 11
Templed PowerPoint ........ 12



# Cefndir



**Bydd cyfraith newydd yn dod i rym ar 6 Ebrill 2023 sy'n golygu y bydd angen i holl weithleoedd fel busnesau, sefydliadau'r sector cyhoeddus ac elusennau wahanu eu deunyddiau ailgylchadwy yn yr un ffordd ag y mae'r rhan fwyaf o breswylwyr yn ei wneud eisoes.**

Mae gan weithleoedd eisoes **'Ddyletswydd i Ofalu'** i storio, cludo a gwaredu eu gwastraff heb wneud niwed i'r amgylchedd.

Mae'n berthnasol hefyd i holl gasglwyr a phroseswyr gwastraff ac ailgylchu sy'n rheoli gwastraff sy'n debyg i wastraff domestig o weithleoedd.

## Beth yw'r gyfraith newydd?

**Bydd angen i'r deunyddiau hyn gael eu gwahanu ar gyfer eu casglu, a'u casglu ar wahân:**

- **Gwastraff bwyd** – ar gyfer lleoliadau sy'n cynhyrchu mwy na 5kg o wastraff bwyd yr wythnos
- **Poteli a jariau gwydr**
- **Metel, plastig a chartonau** – gellir cymysgu'r rhain yn yr un cynhwysydd
- **Cardbord a phapur** – gellir cymysgu'r rhain yn yr un cynhwysydd
- **Cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach (sWEEE) heb ei werthu**
- **Tecstilau heb eu gwerthu yn cynnwys dillad, tecstilau'r cartref, carpedi, matiau a matresi**

## Bydd gwaharddiad ar:

- Anfon gwastraff bwyd i garthffosydd (unrhyw faint)
- Gwastraff a gasglwyd ar wahân yn mynd i losgi a thirlenwi
- Holl wastraff pren yn mynd i dirlenwi

Gan y bydd hyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith, bydd angen i sefydliadau wirio nodiadau trosglwyddo gwastraff a ddarperir gan gasglwyr gwastraff i sicrhau nad yw hyn yn digwydd.

## Pam mae'r gyfraith yn cael ei chyflwyno?

Cymru yw trydedd genedl orau'r byd am ailgylchu gwastraff o'r cartref ar hyn o bryd. Mae'r gyfradd ailgylchu o'r cartref bresennol yn ychydig dros 65% ac mae'n helpu i arbed oddeutu 400,000 o dunelli o allyriadau carbon bob blwyddyn.

Y nod yw adeiladu ar lwyddiant ailgylchu o'r cartref a sicrhau cyfraddau ailgylchu uchel ar draws gweithleoedd hefyd.


Bydd y gyfraith newydd yn helpu i wella ansawdd a swm y deunyddiau a gesglir i'w hailgylchu.

I helpu sefydliadau ddeall a llywio'r gyfraith newydd, mae WRAP Cymru wedi datblygu **gwefan newydd, Y Busnes o Ailgylchu.**

Bydd y wefan hon yn cynnig arweiniad ac adnoddau am ddim i'w lawrlwytho i helpu sefydliadau ddechrau/gwella ailgylchu yn y gweithle.



Mae'n orfodol i weithleoedd drefnu casgliad ar wahân ar gyfer y deunyddiau hyn, er mwyn iddynt gael eu casglu'n effeithlon.




**Cyfradd ailgylchu 65%** o'r deunydd gwastraff a gesglir gan ein hawdurdodau lleol



**400,000 o dunelli** o allyriadau carbon wedi'u harbed bob blwyddyn

# Manteision ailgylchu yn y gweithle



## Cynyddu ailgylchu yn y gweithle

Bydd holl fusnesau, sefydliadau'r sector cyhoeddus ac elusennau sy'n cynhyrchu ffrydiau gwastraff sy'n debyg eu natur a'u cyfansoddiad i wastraff o'r cartref ond a ddosberthir yn wastraff busnes, yn gorfod gwahanu deunyddiau ailgylchadwy (gwastraff bwyd; poteli a jariau gwydr; metelau, plastigion a chartonau; cardbord a phapur; sWEEE heb ei werthu; a thecstilau heb eu gwerthu). Bydd hyn yn helpu i wella ansawdd a swm yr hyn a ailgylchir o weithleoedd.

## Mae peidio ag ailgylchu yn arwain at wastraff diangen

Mae didoli deunyddiau i'w hailgylchu yn galluogi eu troi'n rhywbeth newydd, sy'n cefnogi'r economi gylchol i fwyhau eu defnydd a'u hoes. Mae hyn yn ein galluogi i gael y gwerth mwyaf bosibl ohonynt gan leihau effeithiau amgylcheddol negyddol ar yr un pryd.

## Gall helpu arbed arian

Mae ailgylchu'n costio llai na gwaredu gwastraff.

## Mae'n arbed ynni

Mae defnyddio deunyddiau eilgylch yn y broses weithgynhyrchu yn defnyddio llawer llai o ynni na'r hyn y mae ei angen ar gyfer cynhyrchu nwyddau newydd o ddeunyddiau crai – hyd yn oed o ystyried yr holl gostau cysylltiedig, fel trafnidiaeth.

## Mae'n diogelu'r amgylchedd ac yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd

Mae ailgylchu'n lleihau'r angen i echdynnu (cloddio, chwarelu a thorri coed), puro a phrosesu deunyddiau crai, sydd oll yn creu llygredd aer a dŵr sylweddol ac yn difrodi cynefinoedd. Mae hefyd yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, fel carbon deuocsid (CO2), sy'n helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd.







**Arbed arian**
gan fod ailgylchu'n costio llai na gwaredu gwastraff



**Arbed ynni**
gan fod ailgylchu'n defnyddio llawer llai o ynni



**Lleihau allyriadau**
nwyon tŷ gwydr, fel carbon deuocsid (CO2)


# Ffeithiau allweddol



**Mae gan Gymru rai o'r lefelau ailgylchu uchaf yn y Deyrnas Unedig ac mae'n awr yn gyntaf yn y DU ar gyfer ailgylchu o'r cartref, gyda chyfradd ailgylchu gyfartalog o 65%.[1]**

Mae Cymru'n 3edd genedl orau'r byd am ailgylchu o'r cartref ar hyn o bryd.

- Mae 70% o wastraff swyddfa yn ailgylchadwy.[2]
- Mae 77% o wastraff lletygarwch yn ailgylchadwy.[3]
- Mae gwastraff bwyd yn costio £3.2 biliwn y flwyddyn i'r diwydiant lletygarwch a gwasanaeth bwyd y DU, a gellid bod wedi bwyta 75% o'r bwyd a wastraffwyd.[4]
- Ar gyfartaledd, mae 18% o'r bwyd a brynir gan ddiwydiant lletygarwch a gwasanaeth bwyd y DU yn cael ei daflu.[4]
- Gellid ailgylchu mwy na 74% o'r deunyddiau sydd yn y ffrwd wastraff fasnachol.[5]







**Mae 70% o wastraff swyddfa** yn ailgylchadwy [2]



**Mae 77% o wastraff lletygarwch** yn ailgylchadwy [3]



**Gellid ailgylchu mwy na 74%** o'r deunyddiau sydd yn y ffrwd wastraff fasnachol [5]

**Ffynonellau:**

1 'Recycling – Who Really Leads the World?', Eunomia, 2017
2 Gwastraff diwydiannol a masnachol a gynhyrchwyd yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, 2018
3 'Overview of Waste in the UK Hospitality and Food Service Sector', WRAP, 2013
4 Guardians of Grub, WRAP, 2013
5 Dadansoddiad o gyfansoddiad gwastraff Masnachol a Diwydiannol yng Nghymru, WRAP, 2020

Pecyn Adnoddau Cyfathrebu

# Cymorth y Busnes o Ailgylchu



I hysbysu, paratoi a chefnogi gweithleoedd ynghylch y gyfraith ailgylchu newydd a ddaw i rym ar 6 Ebrill 2024 drwy ddarparu:

**Gwefan Y Busnes o Ailgylchu** Cymru yn cynnwys canllawiau i helpu gweithleoedd yn y sectorau canlynol ddeall beth y mae angen iddynt ei wneud a sut i ddechrau/gwella ailgylchu:

- Lletygarwch a gwasanaethau bwyd
- Manwerthu
- Busnesau bach a chanolig (SME)
- Lleoliadau addysg a phrifysgolion
- Lleoliadau preswyl (yn cynnwys cartrefi gofal)
- Digwyddiadau awyr agored (er enghraifft, gwyliau)
- Cyfleusterau adloniant a hamdden (yn cynnwys gwersylloedd, chalets, cabanau, gwestai, carafanau)

**Adnoddau am ddim i'w lawrlwytho** – cyfres o adnoddau i helpu codi ymwybyddiaeth a rhoi ailgylchu ar waith yn y gweithle. Er enghraifft, posteri ac arwyddion ar gyfer biniau, a thempled PowerPoint.














Pecyn Adnoddau Cyfathrebu

# Adnoddau i’w lawrlwytho

- Logos ar gyfer Y Busnes o Ailgylchu
- Posteri cyfarwyddiadau (A3, A4 ac A5) i hyrwyddo ailgylchu yn y gweithle
- Templed PowerPoint i’w ddefnyddio wrth roi briff i staff
- Eiconau ffrwd deunydd i greu sticeri ar gyfer eich cynwysyddion ailgylchu a gwastraff na ellir eu hailgylchu, ac i’w defnyddio ar arwyddion, i’ch helpu i roi gwybod i’ch cwsmeriaid am beth sy’n mynd ble

Lawrlwytho adnoddau

wrap Cymru | Y Busnes o Ailgylchu Cymru | The Business of Recycling Wales

**Logos**




**Templed PowerPoint**




**Posteri**




**Eiconau ffrydiau deunyddiau**

Lawrlwytho eiconau

# Logos a sut i'w defnyddio



Tri amrywiad lliwiau mewn 3 lliw.
Mae'r rhain ar gael fel ffeiliau AI, JPEG, PNG ac SVG.

wrap Cymru | Y Busnes o Ailgylchu Cymru | The Business of Recycling Wales

Logo

wrap Cymru | Y Busnes o Ailgylchu Cymru | The Business of Recycling Wales


Logo meistr

wrap Cymru | Y Busnes o Ailgylchu Cymru | The Business of Recycling Wales

Logo du

- Dyma logo Y Busnes o Ailgylchu, wedi'i glymu â logo WRAP
- Peidiwch â newid lleoliad na chyfannedd yr elfennau
- Mae 3 amrywiad ar liwiau'r logo hon – y logo Meistr, fersiwn gwyn ar gyfer cefndiroedd tywyll a fersiwn du i gyd
- Dylid atgynhyrchu'r logo i faint dim llai na 40mm o led. Dylid cadw gofod clir o amgylch y logo yn cyfateb i faint 'w' WRAP yn y logo
- Defnyddiwch y ffeiliau jpg, png neu eps cywir bob amser. Dylid osgoi ymestyn, ystumio neu newid cyfrannedd neu liw'r logo

## Dyfeisiau graffeg



Dylai'r holl siapiau gael ymylon crwn. Dylai'r ymylon fod wedi'u crymu ar 10px. Dylai hyn fod yr un fath beth bynnag fo maint y siâp. Gall siapiau aros ar 90° neu gael eu gwyro yn union 5° i'r chwith neu i'r dde.

---

## Cymwysiadau Y Busnes o Ailgylchu.

Mae palet Canllaw Defnyddwyr Y Busnes o Ailgylchu wedi'i dynnu o ganllawiau brand WRAP. Mae'r prif balet lliw yn cynnwys lliwiau o'r enw *Core Dark Blue, Duck Egg, Citrus*, Du, a Gwyn.

**Teip:** Open Sans (gellir ei ddefnyddio mewn amrywiaeth o opsiynau trwch).

Core dark blue
Pantone: 655M
CMYK: 100/79/12/59
RGB: 0/37/84
HEX: #002554

Duck egg
Pantone: 564M
CMYK: 37/0/20/0
RGB: 135/195/171
HEX: #87C3AB

Citrus
Pantone: 584M
CMYK: 12/0/79/8
RGB: 206/214/73
HEX: #CED649

# Posteri cyfarwyddiadau



Am ddim i'w lawrlwytho ac ar gael mewn meintiau A3, A4, ac A5 mewn fformatau ffeil PDF ac InDesign. Bydd posteri A4 hefyd ar gael yn MS Word.

**Bydd posteri ar gael ar gyfer y deunyddiau canlynol:**

- Gwastraff bwyd
- Poteli a jariau gwydr
- Metelau, plastigion a chartonau
- Cardbord a phapur
- Caniau, tuniau, erosolau a ffoil metel
- Potiau a thybiau plastig
- Cartonau bwyd a diod
- Eitemau trydanol bach
- Tecstilau
- Gwastraff na ellir ei ailgylchu

Gellir defnyddio'r posteri hyn i hyrwyddo mannau casglu ailgylchu, fel ardaloedd cegin/ffreuturau, ardaloedd argraffu a mannau cyfarfod, i helpu addysgu gweithwyr ynghylch sut i ailgylchu. Bydd hyn yn helpu sefydliadau i atgyfnerthu'r hyn y gellir ac na ellir ei ailgylchu.

Gellir defnyddio'r fersiynau A5 i labelu biniau ailgylchu.

Rydym wedi creu fersiynau hawdd eu hargraffu o'r holl bosteri i helpu arbed inc os ydych yn eu hargraffu'n fewnol!

Y ffont yw Futura EF. Os hoffech i ni anfon y ffont hon atoch, anfonwch ebost atom i **CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk** ac efallai y byddwn yn gallu rhannu'r ffont hon gyda chi am ddim, yn dibynnu ar fath eich sefydliad.

## Cynllun y posteri

1. Dwyieithog – Cymraeg a Saesneg
2. Y math o ddeunydd ailgylchadwy
3. Ffocws ar ba eitemau y gellir eu hailgylchu gan ddefnyddio delweddau a geiriau
4. Eicon ffrwd deunyddiau Cymru yn Ailgylchu
5. Rhestr o eitemau na ellir eu hailgylchu
6. Logo Cymru yn Ailgylchu. Gallwch olygu'r faner ar y gwaelod yn MS Word neu InDesign i ychwanegu logo eich sefydliad eich hun

## Hunaniaeth Cymru yn Ailgylchu

Mae posteri Y Busnes o Ailgylchu yn dilyn canllawiau brand Cymru yn Ailgylchu bob amser. Y prif balet yw *Lime Green*, Du a Gwyn. Gellir dod o hyd i ganllawiau logo Cymru yn Ailgylchu **yma**.

Gwyrdd Recycle Now a Cymru yn Ailgylchu
Pantone® 376C
CMYK: 50/0/100/0
R141 G198 B63
HEX: #8DC63F

**Teip:** Futura EF (Dylid ei ddefnyddio mewn 'bold' ar gyfer penawdau a 'regular' ar gyfer copi).



Palet lliwiau ffrwd deunyddiau



# Eiconau ffrydiau deunyddiau ar gyfer y gweithle



Mae'r eiconau hyn yn cynnig arwyddion ymarferol sy'n dangos beth ellir ei ailgylchu yn y gweithle a gellir eu defnyddio at sawl diben, er enghraifft:

- Cyfathrebu ailgylchu busnes
- Mannau casglu ailgylchu
- Sticeri biniau / labeli cynwysyddion
- Gwefan / Mewnrwyd
- Cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol



Lawrlwytho eiconau






Y ffont ar gyfer yr eiconau yw Futura EF. Os hoffech i ni anfon y ffont hon atoch, anfonwch ebost atom i **CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk** ac efallai y byddwn yn gallu rhannu'r ffont hon gyda chi am ddim, yn dibynnu ar fath eich sefydliad.

# Dechrau arni



Codi ymwybyddiaeth o beth, sut a ble i ailgylchu yn y gweithle yw’r allwedd i gael pobl i gymryd rhan a newid ymddygiad.

Mae’n hanfodol defnyddio posteri i hyrwyddo mannau ailgylchu dynodedig ac egluro’n glir pa eitemau y gellir eu hailgylchu ac na ellir eu hailgylchu. Mae hyn yn galluogi pobl i weithredu’n syth wrth waredu eitemau.

**1** Ewch i fwrw golwg ar dudalen adnoddau Y Busnes o Ailgylchu **busnesoailgylchu.wrapcymru.org.uk**

**2** Dewiswch y posteri cyfarwyddyd sy’n cyd-fynd â’r deunyddiau’r ydych yn eu casglu

**Lawrlwytho adnoddau**

**3** Argraffwch y posteri. Gellir defnyddio posteri A5 fel labeli biniau. Rydym hefyd wedi creu fersiynau sy’n addas i’w argraffu i arbed inc!

**4** Rhowch y poster ar y wal uwchben y bin ac ychwanegwch label ar y bin os oes angen

**5** Rhowch wybod i’ch staff ble mae’r biniau ailgylchu wedi’u lleoli

**6** I ddarganfod mwy am ailgylchu yn y gwaith, ewch i **busnesoailgylchu.wrapcymru.org.uk**

# Templed PowerPoint



Mae templed PowerPoint wedi cael ei ddatblygu i helpu cyflogwyr rannu gwybodaeth am ailgylchu yn y gweithle yn fewnol ac yn allanol. Er enghraifft, wrth gyfathrebu eich polisïau ailgylchu, cyfarwyddiadau ar beth ellir ei ailgylchu ac ymhle, ac ati.



wrapcymru.org.uk

busnesoailgylchu.wrapcymru.org.uk

CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk

Y Busnes o Ailgylchu Cymru | The Business of Recycling Wales

11/2023